**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

18 Mehefin 2024

Annwyl Peredur,

Craffu ar y gyllideb ddrafft

Diolch am y cyfle i roi adborth ar y gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 ar ran y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd, a Seilwaith. Rwyf wedi ystyried y materion a godwyd yn eich llythyr a hoffwn gynnig y sylwadau a ganlyn.

Roedd ansawdd y dogfennau a oedd yn cyd-fynd â'r Gyllideb ddrafft eleni yn anfoddhaol. Roedd gwybodaeth allweddol y gofynnodd y Pwyllgor amdani ar goll heb gydnabyddiaeth nac esboniad. Roedd sawl elfen arall yn anghywir neu'n anghyflawn.

Credwn fod yn rhaid i'r pwyllgorau gael y papurau tystiolaeth perthnasol yn gynharach a bod yn rhaid gwneud ymdrech benodol i sicrhau eu bod yn gywirach. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn gweithio o dan gyfyngiadau sylweddol yn y cyswllt hwn, o ystyried ei bod yn dibynnu cymaint ar amseriad proses gyllidebol Llywodraeth y DU. Mae'r amserlen ar gyfer gwaith craffu yn y Senedd yn cael ei gwtogi'n ddifrifol yn llawer rhy aml.

Fel y gwyddoch, yn dilyn newidiadau a wnaed i rolau gweinidogion yn ddiweddar, cafodd eu cyfrifoldebau eu had-drefnu'n sylweddol, yn enwedig cyfrifoldebau'r Gweinidog blaenorol dros Newid Hinsawdd. Mae cylch gwaith y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith bellach yn ymwneud â phortffolios pedwar Ysgrifennydd Cabinet, gan gwmpasu meysydd polisi amrywiol a sylweddol, fel a ganlyn: Rwyf wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i ddweud fy mod yn pryderu y bydd yn anodd i'r Pwyllgor graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, yn benodol, yn enwedig o ystyried bod pwyllgorau'n gweithio o fewn cyfyngiadau amser sylweddol. Rwy'n gobeithio y bydd y Pwyllgor Busnes yn rhoi sylw i'r mater hwn.

Hoffwn hefyd awgrymu bod y Senedd yn ystyried opsiynau amserlennu mwy hyblyg o fewn yr amser sydd ar gael ar gyfer gwaith craffu. Gallai hyn gynnwys sesiynau diwrnod cyfan yn y Cyfarfod Llawn, cynyddu nifer y slotiau ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor neu ymestyn yr amser sydd ar gael ar gyfer cyfarfodydd, a chynyddu nifer cyffredinol y diwrnodau a gaiff eu neilltuo ar gyfer busnes y Senedd yn ystod y cyfnod o graffu ar y Gyllideb ddrafft.

Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Pwyllgor Cyllid yn parhau i ymgysylltu ynghylch effeithiolrwydd y broses o graffu ar y gyllideb.

Yn gywir,



**Llyr Gruffydd AS,**
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.